# CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **24 Ionawr 2024** |
| **Teitl:** | **Siarter Archwilio Mewnol 2024/2025** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau’r Pwyllgor am y Siarter Archwilio Mewnol** |

Mae safon priodoledd 1000 Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) yn ei gwneud yn ofynnol i bob gweithgaredd archwilio mewnol gadw ‘siarter archwilio mewnol’. Dogfen ffurfiol yw’r siarter sy’n diffinio diben y gweithgaredd archwilio mewnol, ei awdurdod a’i gyfrifoldeb ynghyd â sefydlu rôl archwilio mewnol o fewn y sefydliad.

Cafodd Siarter Archwilio Mewnol (AM) Cyngor Sir Ceredigion ei chymeradwyo’n ffurfiol ym mis Medi 2013 ar yr un pryd â chyflwynwyd Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Mae’r Rheolwr Corfforaethol Archwilio Mewnol wedi adolygu’r siarter yn rheolaidd gan ei diweddaru yn ôl yr angen. Mae pob fersiwn a ddiweddarwyd wedi’u cymeradwyo gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Mae Siarter AM 2024/25 wedi'i hadolygu a'i diweddaru gan yr RhCAM. Mae'r Siarter wedi'i hail-strwythuro a'i diweddaru yn unol ag argymhellion Asesiad Ansawdd Allanol y gwasanaeth AM i gynnwys:

- Llinellau adrodd gweinyddol y Swyddog Llywodraethu i'r Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol er mwyn gynnal annibyniaeth Archwilio Mewnol;
- Adnoddau Archwilio Mewnol gan gynnwys cymwysterau proffesiynol;
- Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang Newydd; a
- Asesiad Risg Gwrth-dwyll a'r Gofrestr Risg Twyll.

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad:** | **Cymeradwyo’r Adroddiad** |
| **Rhesymau dros y penderfyniad:** | **Er mwyn cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus** |
| **Atodiadau:** | **Siarter Archwilio Mewnol 2024/2025** |
| **Pennaeth y Gwasanaeth:** | Elin Prysor<br>Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu / Swyddog Monitro |
| **Swyddog Adrodd:** | Alex Jenkins<br>Rheolwr Corfforaethol - Archwilio Mewnol |
| **Dyddiad:** | 6 Rhagfyr 2023 |

GWASANAETHAU CYFREITHIOL A LLYWODRAETH

LEGAL AND GOVERNANCE SERVICES

GWASANAETH ARCHWILIO MEWNOL

INTERNAL AUDIT SERVICE



Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# SIARTER ARCHWILIO MEWNOL
# INTERNAL AUDIT CHARTER

Adroddiad wedi'i baratoi gan: Alex Jenkins,Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol

Dyddiad cyhoeddi: 6 Rhagfyr 2023

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: 25 Ionawr 2024

## CYFLWYNIAD

1.1 Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus 2017 yn seiliedig ar elfennau gorfodol Fframwaith Arferion Proffesiynol Rhyngwladol (IPPF) y Sefydliad Archwilwyr Mewnol (IIA). Maent wedi'u hanelu at yr holl swyddogion a rhanddeiliaid priodol, ac maent yn diffinio natur ac yn amlinellu'r egwyddorion sylfaenol ar gyfer archwilio mewnol yn y sector cyhoeddus yn y DU.

1.2 Mabwysiadodd Llywodraeth Cymru Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) o 1 Ebrill 2013 ac maent yn gymwys i bob darparwr gwasanaeth archwilio mewnol yn y sector cyhoeddus. Maent yn llywodraethu'r fframwaith y mae Adran Archwilio Mewnol (AM) Cyngor Sir Ceredigion (y Cyngor) yn gweithredu yn unol ag ef.

1.3 Mae'n ofynnol i'r Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol ddiffinio pwrpas, awdurdod a chyfrifoldeb y gweithgarwch archwilio mewnol mewn Siarter flynyddol a'i chyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w chymeradwyo.

1.4 Mae gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor wedi mabwysiadu Datganiad Cenhadaeth ac Egwyddorion Craidd Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

1.5 At ddibenion y Siarter AM, bydd y diffiniadau canlynol yn berthnasol o ran cyfrifoldebau mewn perthynas ag Archwilio Mewnol:

| | | |
|---|---|---|
| **Y Bwrdd** | **Grŵp llywodraethu sy'n gyfrifol am roi sicrwydd ar gyfer risg, llywodraethu a rheolaethau.** | **Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** |
| **Uwch Reolwyr** | **Uwch swyddogion sy'n gyfrifol am lywodraethu.** | **Grŵp Arweiniol** |

# Cenhadaeth ac Egwyddorion Craidd

**Cenhadaeth Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus ar gyfer y gwasanaeth archwilio mewnol yw:**

**Gwella a diogelu gwerth sefydliadol trwy ddarparu sicrwydd, cyngor a mewnwelediad gwrthrychol sy'n seiliedig ar risg.**

**Mae'r egwyddorion craidd sy'n sail i gyflawni'r genhadaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth archwilio mewnol wneud y canlynol:**

- **Dangos uniondeb,**
- **Dangos cymhwysedd a gofal proffesiynol dyladwy,**
- **Bod yn wrthrychol ac yn rhydd o ddylanwad gormodol (annibynnol),**
- **Alinio â strategaethau, amcanion a risgiau'r sefydliad,**
- **Wedi'i leoli'n briodol gydag adnoddau digonol,**
- **Dangos ansawdd a gwelliant parhaus,**
- **Cyfathrebu'n effeithiol,**
- **Darparu sicrwydd sy'n seiliedig ar risg,**
- **Bod yn graff, yn rhagweithiol a chanolbwyntio ar y dyfodol,**
- **Hyrwyddo gwelliant sefydliadol.**

DIFFINIAD

**Yn ôl Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, mae'r diffiniad o Archwilio Mewnol fel a ganlyn:**

**Mae Archwilio Mewnol yn weithgarwch annibynnol, sicrhau gwrthrychedd ac ymgynghori sy'n ceisio ychwanegu gwerth a gwella gweithrediadau'r sefydliad. Mae'n helpu sefydliad i gyflawni ei amcanion trwy fabwysiadu dull systematig, disgybledig o werthuso a gwella effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu.**

PWRPAS

2.1 Mae Archwilio Mewnol yn swyddogaeth sicrwydd ac ymgynghori sy'n rhoi barn annibynnol a gwrthrychol i'r Cyngor trwy werthuso effeithiolrwydd yr amgylchedd rheoli, rheoli risg a phrosesau llywodraethu sydd yn eu lle i gyflawni ei amcanion.

2.2 Prif amcanion Archwilio Mewnol yw:

- Rhoi sicrwydd a chyngor annibynnol i reolwyr a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar reoli risg, llywodraethu a rheolaethau mewnol.
- Darparu gwasanaeth archwilio o safon, annibynnol a gwrthrychol sy'n ateb anghenion y Cyngor yn effeithiol, yn ychwanegu gwerth, yn gwella gweithrediadau ac yn helpu i ddiogelu adnoddau cyhoeddus.
- Cynorthwyo i sicrhau bod amcanion y Cyngor yn cael eu cyflawni.
- Rhoi cyngor a chymorth i reolwyr er mwyn gallu cynnal amgylchedd rheoli effeithiol.
- Hyrwyddo diwylliant gwrth-dwyll, gwrth-lwgrwobrwyo a gwrth-lygredd o fewn y Cyngor er mwyn helpu i atal a chanfod twyll ac ymchwilio i honiadau o dwyll, llwgrwobrwyo, llygredd ac afreoleidd-dra arall.

2.3 Mae Archwilio Mewnol yn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei amcanion trwy fabwysiadu dull systematig a disgybledig o werthuso a gwella effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu'r Cyngor.

Mae'r rheolaethau mewnol sy'n cael eu hystyried gan Archwilio Mewnol yn cynnwys:

- Cysondeb gweithrediadau neu raglenni gydag amcanion a nodau sefydledig a pherfformiad effeithiol
- Effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gweithrediadau a'r defnydd o adnoddau
- Cydymffurfio â pholisïau, cynlluniau, gweithdrefnau, cyfreithiau a rheoliadau arwyddocaol
- Dibynadwyedd ac uniondeb prosesau rheoli a gwybodaeth ariannol gan gynnwys y gallu i adnabod, mesur, dosbarthu ac adrodd am wybodaeth o'r fath
- Diogelu asedau

AWDURDOD A HAWL MYNEDIAD

3.1 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i bob Cyngor 'gynnal archwiliad mewnol effeithiol i werthuso effeithiolrwydd ei brosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu'.

3.2 Mae Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod 'wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu ei faterion ariannol' a sicrhau bod un o'r swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny.

3.3 Mae cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyllid (Adran 151) i'r swyddogaeth Archwilio Mewnol wedi'u nodi ym mhwynt 1.8.2 o Gyfansoddiad y Cyngor.

3.4 Mae'r RhCAM yn adrodd yn swyddogaethol i'r Bwrdd (Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio).

3.5 Mae'r RhCAM yn adrodd yn sefydliadol i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyfreithiol a Llywodraethu / Swyddog Monitro.

3.6 Lle yr ystyrir ei fod yn angenrheidiol er mwyn gallu cyflawni dyletswyddau'n briodol, mae gan y Rheolwr Corfforaethol Archwilio Mewnol hawl i gael mynediad uniongyrchol at y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro, y Prif Swyddog Ariannol, unrhyw swyddogion allweddol eraill ac unrhyw Aelod etholedig, i gynnwys Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

3.7 Mae gan archwilwyr mewnol hawl mynediad hefyd at y canlynol:

- Mynd i mewn i unrhyw eiddo neu dir y Cyngor ar unrhyw amser rhesymol,
- Cael mynediad i'r holl asedau, cofnodion, dogfennau, gohebiaeth a systemau rheoli sy'n ymwneud ag unrhyw drafodion ariannol a thrafodion eraill y Cyngor,
- Mynnu cael a derbyn unrhyw wybodaeth ac esboniadau o'r fath yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol ynghylch unrhyw fater sy'n cael ei ystyried / archwilio,
- Ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un o weithwyr y Cyngor roi cyfrif am arian parod, storfeydd neu unrhyw eiddo arall y Cyngor sydd o dan ei reolaeth, a
- Chael mynediad at gofnodion trydydd parti, megis contractwyr neu asiantaethau partneriaeth, yn unol â'r telerau cytundebol perthnasol.

Mae hyn yn rhan o Reoliadau Ariannol y Cyngor a'r Gweithdrefnau Ariannol Cysylltiedig sydd i'w gweld yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

3.8 Mewn sefyllfaoedd rheoli brys / argyfwng llym yn unig, gellir galw ar staff archwilio i wneud gwaith nad yw'n waith archwilio dros dro. Os gwneir cais y RhCAM fydd yn penderfynu neilltuo adnoddau ac yn cytuno ar gylch gorchwyl clir. Rhoddir gwybod i Gadeirydd neu Is-Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Swyddog Monitro a'r Prif Swyddog Ariannol/Swyddog Adran 151.

COD MOESEG

4.1 Mae Archwilio Mewnol yn gweithredu yn unol â Chod Moeseg Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) trwy ystyried yr egwyddorion a'r rheolau sy'n cwmpasu uniondeb, gwrthrychedd, cyfrinachedd a chymhwysedd.

4.2 Yn ogystal disgwylir i archwilwyr mewnol gadw at ofynion unrhyw gorff proffesiynol arall y maent yn aelod ohono, yn ogystal â Chod Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Gweithwyr sy'n cael ei ategu gan 'Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus' (a elwir hefyd yn Egwyddorion Nolan), h.y. anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth.

4.3 Mae staff Archwilio Mewnol yn llofnodi cadarnhad blynyddol i gadarnhau eu gwybodaeth am y gofynion hyn a'u bod yn cydymffurfio â nhw.

ANNIBYNIAETH A GWRTHRYCHEDD

5.1 Nid oes gan y RhCAM a'i staff archwilio unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw swyddogaethau gweithredol neu swyddogaethau nad ydynt yn ymwneud ag archwilio, i sicrhau bod barnau a phenderfyniadau proffesiynol diduedd ac effeithiol yn cael eu gwneud bob amser.

5.2 Bydd y Swyddog yn adrodd yn weinyddol i'r RhCAM. Bydd y RhCAM ond yn cyfarwyddo gwaith a wnaed o ran archwilio e.e. mapio sicrwydd. Caiff yr holl waith lywodraethu arall ei gyfarwyddo gan y Swyddog Monitro.

5.3 Mae'n ofynnol i archwilwyr unigol ddangos agwedd ddiduedd at waith i sicrhau y bydd unrhyw benderfyniad neu farn archwilio a ddarperir yn ddiduedd ac yn wrthrychol ac yn seiliedig ar y ffeithiau profedig sydd ar gael. Mae'r holl wybodaeth a ddarperir yn cael ei hystyried yn ôl ei rhinweddau ei hun gan nad yw'n bosibl arddel dull un ateb yn addas i bawb mewn amgylchedd mor amrywiol.

5.4 Mae'n ofynnol i staff ddatgan unrhyw fuddiant a allai effeithio ar eu gwrthrychedd mewn datganiad ysgrifenedig blynyddol i'r RhCAM, yn ogystal ag yn unol â pholisi corfforaethol y Cyngor ar ddatgan a chofrestru lletygarwch a buddiannau. Felly mae'r RhCAM yn gallu cynllunio sut i neilltuo gwaith er mwyn osgoi'r risg o unrhyw wrthdaro buddiannau.

5.5 Gall gwrthrychedd gael ei amharu pan fydd staff yn adolygu gweithgarwch y bu ganddynt gyfrifoldeb gweithredol amdano yn flaenorol. Felly, ni chaniateir i archwilwyr mewnol a benodir o'r tu mewn i'r Cyngor gynnal archwiliad sy'n ymwneud mewn unrhyw ffordd â'u swydd flaenorol am o leiaf blwyddyn ar ôl eu penodi.

5.6 Gall cyfrifoldeb hirdymor am archwilio adran / gwasanaeth penodol hefyd effeithio ar wrthrychedd; felly mae neilltuo gwaith archwilio arferol (e.e. rheolaethau allweddol gwasanaethau canolog), lle bo hynny'n ymarferol, yn destun cylchdro cyson.

5.7 Bydd y RhCAM yn cadarnhau yn yr Adroddiad Blynyddol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bod y gwasanaeth archwilio mewnol yn sefydliad annibynnol. Os bu unrhyw amharu ar annibyniaeth neu wrthrychedd caiff hyn ei ddatgelu.

ATEBOLRWYDD / CYFRIFOLDEB

6.1 Mae'r RhCAM yn gyfrifol am reoli'r gweithgarwch archwilio mewnol yn effeithiol yn unol â 'Chenhadaeth', 'Egwyddorion Craidd', 'Diffiniad o Archwilio Mewnol', 'Cod Moeseg' a 'Safonau' Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS).

6.2 Mae Archwilio Mewnol yn gyfrifol am werthuso holl brosesau'r Cyngor gan gynnwys prosesau llywodraethu a phrosesau rheoli risg. Mae hefyd yn cynorthwyo'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i werthuso ansawdd perfformiad archwilwyr allanol a hyrwyddo cydgysylltiad da rhwng archwilio mewnol ac allanol.

6.3 Mae Archwilio Mewnol hefyd yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cyngor trwy ddarparu gweithgarwch cynghori ac ymgynghori yn ymwneud â llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth ar weithredu neu ddatblygu systemau a gweithdrefnau newydd neu sydd eisoes yn bodoli. Gall hefyd werthuso gweithrediadau penodol ar gais y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio neu reolwyr fel y bo'n briodol. Rhoddir cyngor heb ragfarn ar hawl yr adran AM i adolygu a chymryd camau pellach yn ddiweddarach.

6.4 Mae'n ofynnol i'r RhCAM greu Siarter AM blynyddol a gaiff ei chyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w chymeradwyo a/neu roi mewnbwn (ond nid ei chyfarwyddo).

6.5 Bydd Strategaeth a Chynllun Archwilio yr adran AM yn cynnwys gofynion adnoddau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Bydd y RhCAM yn cyfleu effaith cyfyngiadau adnoddau a newidiadau interim pwysig i'r uwch reolwyr a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

6.6 Fel arfer bydd adroddiad ysgrifenedig yn cael ei baratoi gan AM a'i gyhoeddi gan y RhCAM ar ddiwedd pob archwiliad a'i ddosbarthu fel y bo'n briodol. Bydd yr adroddiad yn cynnwys ymateb y rheolwyr, y camau unioni a gymerwyd ac sydd i'w cymryd, a dyddiadau targed ar gyfer camau gweithredu yn y dyfodol. Bydd AM yn cynnal archwiliad dilynol o'r holl wendidau sylfaenol ac arwyddocaol, a chyflwynir adroddiad arnynt.

6.7 Mae Archwilio Mewnol yn ymrwymedig i Bolisi Iaith Gymraeg yr Awdurdod. Pan fydd gwasanaeth yn dymuno cynnal adolygiad trwy gyfrwng y Gymraeg, bydd AM yn ceisio defnyddio staff sy'n siarad Cymraeg ac yn cynhyrchu'r holl ohebiaeth, adroddiadau a chynlluniau gweithredu yn Gymraeg.

6.8 Mae'r farn archwilio mewnol blynyddol ar sicrwydd yn seiliedig ar ganfyddiadau AM o'r holl adolygiadau archwilio a gynhaliwyd yn ystod bob blwyddyn. Mae'r farn hon yn ategu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

6.9 Yn seiliedig ar ei weithgarwch, mae Archwilio Mewnol yn gyfrifol am adrodd am achosion pwysig o ddod i gysylltiad â risg a materion rheoli a adroddwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac uwch reolwyr, gan gynnwys risgiau twyll, materion llywodraethu a materion eraill sydd eu hangen neu sy'n ofynnol.

6.10 Mae cyfrifoldebau'r RhCAM i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys:

- Cyflwyno'r Siarter Archwilio Mewnol i'w chymeradwyo,
- Cyflwyno'r Cynllun a Strategaeth Archwilio Mewnol seiliedig risg i'w cymeradwyo,
- Cyflwyno'r cynllun adnoddau archwilio mewnol fel rhan o'r Cynllun Archwilio,
- Cyflwyno Adroddiadau Cynnydd rheolaidd ar weithgarwch a pherfformiad AM trwy gydol y flwyddyn (a fydd hefyd yn tynnu sylw at unrhyw gyfyngiadau staffio neu adnoddau cyllidebol y mae'r RhCAM yn eu hystyried yn bryder i ddarpariaeth gwasanaeth AM),
- Rhoi crynodeb o'r holl wendidau sylfaenol ac arwyddocaol a ganfuwyd yn ystod adolygiadau archwilio, a'r camau unioni a argymhellir i'w cymryd gan wasanaethau,
- Adrodd am unrhyw achosion lle mae rheolwyr yn gwrthod gweithredu'r camau unioni a argymhellir, yn enwedig y rhai mewn meysydd risg uchel,
- Darparu Adroddiad Blynyddol gyda'r farn archwilio flynyddol i'w gymeradwyo,
- Darparu Adroddiad Atal Twyll blynyddol yn amlinellu'r gwaith rhagweithiol ac adweithiol a wneir gan AM yn y maes gwaith hwn, ac
- Adrodd ar ganlyniadau Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella (QAIP) Archwilio Mewnol i gynnwys asesiadau mewnol ac allanol.

6.11 Mae Cylch Gorchwyl* y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi ei gyfrifoldeb i 'ddarparu ffocws annibynnol a lefel uchel ar drefniadau archwilio, sicrwydd ac adrodd y Cyngor sy'n sail i lywodraethu a safonau ariannol da'.

6.12 Rhaid i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 'sicrhau bod systemau llywodraethu a rheolaeth fewnol y Cyngor yn effeithiol, gan gynnwys trefniadau ar gyfer sicrhau gwerth am arian, cefnogi safonau a moeseg ac ar gyfer rheoli achosion lle mae'r awdurdod yn agored i risgiau o dwyll a llygredd, a sicrhau bod gwasanaethau archwilio mewnol y Cyngor yn gweithredu yn unol â gweithdrefnau y cytunwyd arnynt'.

6.13 Mae Cylch Gorchwyl* y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi ei gyfrifoldebau i Archwilio Mewnol fel:

- Cymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol, y Cynllun Archwilio Mewnol seiliedig ar risg a newidiadau interim pwysig i'r Cynllun Archwilio Mewnol a gofynion adnoddau.
- Ystyried adroddiad blynyddol y RhCAM.
- Ystyried cynigion a wnaed mewn perthynas â phenodi unrhyw ddarparwyr allanol gwasanaethau archwilio mewnol.
- Gwneud ymholiadau priodol i reolwyr a'r RhCAM i benderfynu a oes unrhyw gyfyngiadau amhriodol o ran cwmpas neu adnoddau.
- Ystyried adroddiadau gan y RhCAM ar berfformiad Archwilio Mewnol, gan gynnwys: Adroddiadau Cynnydd, Adroddiadau Gweithredu gan Reolwyr, canlyniadau'r Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella ac achosion o ddiffyg cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS).
- Cefnogi cyfathrebu effeithiol â'r pennaeth archwilio.
- Comisiynu gwaith gan Archwilio Mewnol.

* Rhan 3.3 o Gyfansoddiad y Cyngor.

<u>ADNODDAU PRIODOL</u>


7.1 Mae’r RhCAM yn Archwilydd Mewnol Ardystiedig ac ar hyn o bryd yn dilyn cymhwyster Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheoli ac wedi cwblhau Rhaglen Hyfforddiant Rheoli’r Cyngor, ac yn Dechnegydd Gwrth-dwyll Achredig. Mae gan ddeiliad y swydd brofiad archwilio mewnol eang ac yn cydymffurfio â'r ofynion datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) priodol, yn ogystal â system arfarnu perfformiad corfforaethol y Cyngor.

7.2 Mae’r Rheolwr Archwilio (RhA) a’r Uwch Archwilydd yn astudio I fod yn Aelod o’r IIA (Sefydliad Archwilio Mewnol).

7.3 Mae'r RhCAM yn gyfrifol am:

- Recriwtio staff priodol, yn unol â pholisïau a phrosesau Adnoddau Dynol y Cyngor, sydd â'r wybodaeth, y cymwysterau, y cymwyseddau, y sgiliau, y profiad a'r priodoleddau personol sy'n ofynnol i gyflawni'r cynllun archwilio;
- Defnyddio darparwyr arbenigol lle bo'n briodol;
- Asesu archwilwyr unigol o bryd i'w gilydd yn erbyn y sgiliau a'r cymwyseddau a bennwyd ymlaen llaw; a
- Darparu unrhyw anghenion hyfforddi neu ddatblygu a nodwyd yn barhaus.

7.4 Rheolir yr holl staff yn uniongyrchol gan y RhCAM. Cymeradwywyd y strwythur staffio presennol gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 10 Mawrth 2022.




7.5 Mae gan bob aelod o staff gyfrifoldeb i gynnal system gwerthuso perfformiad y Cyngor i gofnodi datblygiad eu sgiliau a'u profiad eu hunain.

7.6 Adroddir ar y gyllideb archwilio mewnol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cyngor i'w chymeradwyo'n flynyddol fel rhan o gyllideb gyffredinol y Cyngor.

7.7 Bydd y RhCAM yn codi pryderon gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio os oes unrhyw faterion pwysig yn codi sy'n peryglu'r gwaith o gyflawni'r cynllun archwilio, yn enwedig os yw hyn yn effeithio ar ddarparu'r sicrwydd blynyddol oherwydd cyfyngiadau o ran adnoddau. Mae'r RhCAM yn cwrdd â Chadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio cyn pob cyfarfod.

SAFONAU ARCHWILIO MEWNOL BYD-EANG NEWYDD

8.1 Mae Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang drafft ™ yn diweddaru'r Safonau rhyngwladol ar gyfer Ymarferwyr Proffesiynol Archwilio Mewnol.

8.2 Mae'r safonau newydd yn amlygu nodweddion unigryw y sector cyhoeddus sy'n ei wahaniaethu o'r sector preifat ac sy'n effeithio ar sut y bydd swyddogaeth archwilio mewnol yn mynd rhagddo. Mae hyn yn cynnwys ei bwrpas a'r strwythur llywodraethu.

8.3 Caiff y safonau newydd eu cyhoeddi yn Ionawr 2024 gan fod yn weithredol 12 mis o'r dyddiad y'u cyhoeddwyd.

8.4 Mae'r prif newidiadau i'r safonau'n cynnwys:

- Strwythur IPPF mwy syml
- Mae'r elfennau canlynol wedi eu cydgrynhoi yn y safonau newydd : Cenhadaeth, Diffiniad, Cod Moeseg, Egwyddorion Craidd, a Chanllawiau ar safonau a gweithredu
- Pwrpas newydd Archwilio Mewnol
- Ychwanegwyd Gofal Proffesiynol dyladwy
- Ychwanegwyd arferion a argymhellwyd a thystiolaeth o gydymffurfiaeth ar ôl pob safon
- Ychwanegwyd pwyslais o ran Sector Cyhoeddus, swyddogaethau bychain a swyddogaethau ymgynghorol
- Egluro ymhellach Rôl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu o ran swyddogaethau Archwilio Mewnol
- Egluro ymhellach rôl RhCAM wrth reoli swyddogaethau Archwilio Mewnol
- Gofynion perfformiad newydd

GWRTH-DWYLL

9.1 Cyfrifoldeb rheolwyr yw rheoli'r risg o dwyll a llygredd. Ni all gweithdrefnau AM yn unig, hyd yn oed pan gânt eu cyflawni gyda gofal proffesiynol dyladwy, warantu y bydd twyll neu unrhyw gamddefnyddio yn cael ei ganfod. Fodd bynnag, mae AM yn ystyried y risg o dwyll wrth gyflawni ei weithgareddau.

9.2 Mae Strategaeth Atal Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo y Cyngor (i Gwrthwyngalchu Arian) yn ei gwneud yn ofynnol i reolwyr hysbysu'r RhCAM am bob twyll, llygredd neu amhriodoldeb a amheuir neu a ganfyddir. Gall y Swyddog Arweiniol Corfforaethol dan sylw hysbysu'r Swyddog Adran 151, y Swyddog Monitro neu'r RhCAM, a fydd yn ymgynghori â'r Prif Weithredwr, os oes angen.

9.3 Bydd y RhCAM yn cydlynu Asesiad Risg Gwrth-twyll blynyddol ar draws y sefydliad cyfan er mwyn arfarnu ymateb y Cyngor i dwyll. Bydd yr ymarfer hefyd yn cynnwys gwybodaeth ar y drefn sydd mewn sydd mewn lle i atal, darganfod, rhwystro, archwilio a chywiro achosion o dwyll yn erbyn y Cyngor.

9.4 Bydd canlyniadau'r Asesiad Risg Gwrth-twyll blynyddol yn bwydo i mewn i'r Gofrestr Risg Twyll caiff ei chynnal a'i chadw gan y RhCAM ac Adroddiad Archwilio Mewnol ar Fynd i'r Afael ar Dwyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo.

9.5 Defnyddir y Gofrestr Risg Twyll a’r Gofrestr Risg Corfforaethol i fwydo i mewn i’r Strategaeth Archwilio Mewnol a’r Cynllun Gwaith Blynyddol am y flwyddyn i ddod yn ogystal â barn cyffredinol Archwilio Mewnol yn Adroddiad Blynyddol RhCAM.

9.6 Pan gaiff ei hysbysu am amheuaeth o dwyll, llygredd neu amhriodoldeb, bydd y RhCAM yn cymryd camau priodol yn unol â Strategaeth Atal Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo y Cyngor er mwyn i'r mater gael ei ymchwilio'n briodol a chymryd y camau priodol y maent yn eu hystyried yn angenrheidiol i gynorthwyo gyda'r ymchwiliad i amheuaeth o dwyll neu lygredd.

9.7 Dylai rheolwyr anfon canlyniad yr holl weithgareddau ymchwilio i'r RhCAM i'w gynnwys yn Adroddiad Atal Twyll Blynyddol Archwilio Mewnol.

9.8 Ar hyn o bryd mae AM yn cydlynu cyfranogiad y Cyngor yn y Fenter Twyll Genedlaethol orfodol lle mae data o brif systemau'r Cyngor yn cael eu paru'n fewnol â data a gyflenwir gan Awdurdodau Lleol eraill ac asiantaethau allanol i ganfod gweithgarwch twyllodrus posibl.

9.9 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol fel arf atal twyll yn ogystal â chanfod twyll. Mae camau gweithredu a gweithgareddau pellach sydd ar waith i gefnogi ymwybyddiaeth o risgiau twyll sy'n dod i'r amlwg yn cynnwys:

- Monitro ac ymateb i rybuddion twyll (NAFN, rhwydweithiau ehangach, cymheiriaid, ac ati);
- Aelodaeth a chyfranogiad gweithredol mewn rhwydweithiau a grwpiau proffesiynol (Tisonline, KHub, ac ati);
- Mae gan y Cyngor Strategaeth Atal Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (i gynnwys Gwrthwyngalchu Arian);
- Mae Archwilio Mewnol yn cynnig cyngor i wasanaethau ar weithredu systemau a phrosesau newydd i sicrhau bod rheolaethau mewnol effeithiol yn cael eu cynnal;
- Mae Swyddogion enwebedig y Cyngor yn ymgymryd â hyfforddiant twyll amrywiol i gynnal gwybodaeth ac arbenigedd; ac
- Archwiliadau rheolaeth ariannol allweddol ac archwiliadau sy'n cwmpasu moeseg.

9.10 Bydd AM yn adrodd ar yr holl waith atal twyll a wneir yn flynyddol i'r Bwrdd.

A E Jenkins
Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol 6 Rhagfyr 2023